

Amserlen

Penderfyniadau

Panel Trwyddedu (Tacsi)

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 6 Tachwedd 2019

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar 6 Tachwedd 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), J Hughes, H Thomas, J Cleverly, Y Forsey, T Suller, M Rahman, C Ferris, J Cleverly

Rhan 2

Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

LIC PAN 11/19

Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni

Penderfyniad

Rhoddodd y Panel Tacsis ystyriaeth ofalus i'r ceisiadau perthnasol, gan gynnwys yr holl dystiolaeth a roddwyd ger eu bron gan yr holl bartïon dan sylw a gwnaed y penderfyniadau canlynol:-

1. Gyrrwr MB

Rhoddodd aelodau'r Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a gyflwynwyd ger eu bron a phenderfynodd y Panel beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

2. Gyrrwr HJ

Rhoddodd aelodau'r Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a roddwyd ger eu bron a phenderfynodd y Panel gymeradwyo'r cais ar ôl cynhyrchu tystysgrif 'Cymhwyster Gyrru Pass Plus'.

3. Gyrrwr SI

Rhoddodd aelodau'r Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth o'u blaenau a phenderfynodd y Panel fod angen i SI ailsefyll y Prawf Gwybodaeth a rhoddwyd Rhybudd iddo.

4. Gyrrwr DH

Gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf.

5. Gyrrwr JE

Rhoddodd aelodau'r Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth o'u blaenau a phenderfynodd y Panel beidio â chyflwyno Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat oherwydd methiant y gyrrwr i ddatgan i'r Awdurdod ei euogfarnau goryrru.

Ymgynghoriad

Ddim yn berthnasol.

Gweithredir gan: Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Amserlen Weithredu: Ar unwaith
